# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 5 CHWEFROR 2019 am 2.00 o'r gloch yp | TUESDAY, 5 FEBRUARY, 2019 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales),**
**Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector),**
**Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 12 Rhagfyr, 2018.

**4** **BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL** (Tudalennau 9 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**5** **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 17 - 20)

Cyflwyno, Rhaglen Waith y Pwyllgor hyd at Gorffennaf, 2019.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr K P Hughes, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Y Cynghorydd R Meirion Jones – Aelod Portffolio – Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant.<br><br>Mrs Anest Frazer – Yr Eglwys yng Nghymru,<br>Mr Dyfed Wyn Jones – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd,<br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig.<br><br>**Aelodau eraill o'r Cyngor Sir a oedd wedi cael gwahoddiad i fynychu**<br><br>Y Cynghorwyr R A Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Llinos M Huws, Aled M Jones. |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr,<br>Y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau),<br>Pennaeth Dysgu,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad (GMH),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (GR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes a Trefor Lloyd Hughes MBE. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Elfyn Jones – Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE.<br>Mrs Sharon Vaughan a Mr Rhys Williams – GwE. |

---

Croesawodd y Cadeirydd Mr Dyfed Wyn Jones – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Nododd y Cadeirydd nad oeddent wedi llwyddo i gael Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac y bydd y Swyddog Sgriwtini yn ail hysbysebu am gynrychiolydd i wasanaethu ar ddau Bwyllgor Sgriwtini yr Awdurdod.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith fod adroddiad cadarnhaol wedi'i dderbyn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Drefniadau Sgriwtini Cyngor Sir Ynys Môn. Diolchodd i'r Rheolwr Sgriwtini a'r Swyddog Sgriwtini am eu gwaith.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

## 2 DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Nicola Roberts ddatganiad personol yng nghyswllt eitemau 4, 5 a 6 am ei bod yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Talwrn ac am fod ei merch yn mynd i Ysgol y Graig, Llangefni a'i mab yn mynd i Ysgol Gyfun, Llangefni.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2018 yn gywir.

## 4 ADRODDIAD SAFONAU YSGOLION (HAF 2018)

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu ar y safonau yn Ysgolion Ynys Môn (Haf 2018).

Adroddodd Mr Elfyn Jones – Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE fod cynnwys yr adroddiad yn wahanol i'r blynyddoedd a fu oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau sylweddol i'r modd y caiff mesurau perfformiad eu hadrodd. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon yn y dyfodol, nid ydynt bellach yn cyhoeddi data cymharol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a 3 ar lefel ysgolion, awdurdod lleol a chonsortia ac felly ar wahân i gymhariaeth gyda chyfartaleddau cenedlaethol, nid oes unrhyw wybodaeth gymharol na meincnodi ar gael. Ym mis Hydref 2014 cafodd y Meysydd Dysgu (MD) Cyfnod Sylfaen ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol eu diwygio fel eu bod yn cyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) ac i'w gwneud yn fwy heriol yn ogystal. Yn unol â hyn cafodd y deilliannau Cyfnod Sylfaen eu hail-raddnodi fel eu bod yn cyd-fynd â disgwyliadau cynyddol y Meysydd Dysgu diwygiedig. Cafodd y MD diwygiedig eu cyflwyno yn statudol o fis Medi 2015. Golyga hyn mai'r garfan o blant a ddechreuodd yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y plant cyntaf i gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y deilliannau newydd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018. Felly, dylid osgoi cymharu deilliannau Cyfnod Sylfaen gyda'r blynyddoedd cynt ar lefel ysgol, gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymaradwy. Nodwyd o ran cymharu canlyniadau blynyddol yn y dyfodol, na fydd awdurdodau lleol yn cymharu canlyniadau yn erbyn ei gilydd ac na fydd cymhariaeth rhwng ysgolion chwaith, ond yn hytrach bydd yr amrywiaeth o ran yr hyn a gyflawnir mewn pwnc penodol o fewn ysgol neu Gyfnod Allweddol yn cael ei graffu.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Rhys Williams, Ymgynghorydd Her Ysgolion (Cynradd) a Mrs Sharon Vaughan, Ymgynghorydd Her Ysgolion (Uwchradd) i'r cyfarfod.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Cynradd) ddadansoddiad manwl o'r data perfformiad i'r Pwyllgor.

**Cyfnod Sylfaen**

- Mae'r canlyniadau eleni yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos gostyngiad cenedlaethol o gymharu â'r blynyddoedd cynt. Mae nifer o athrawon o dan yr argraff fod disgwyliadau uwch i gyflawni Deilliant ac mae hyn yn un ffactor sydd wedi arwain at lai yn cyflawni Deilliant 5;
- Mae nifer o ysgolion yn adrodd ar Cymraeg iaith gyntaf yn 2018 yn hytrach nag ail iaith yn 2017. Ac eithrio Cymraeg mae'r bwlch DCS rhwng perfformiad 2017 a 2018 yn fwy yn genedlaethol nac ar Ynys Môn, a hynny ar y deilliannau disgwyliedig a'r deilliannau uwch;
- Mae gan yr Awdurdod gynllun penodol i yrru gwelliannau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae yna Grŵp Llywio eisoes gyda chynrychiolaeth o Brifathrawon o bob dalgylch. Mae GwE yn hwyluso, yn cefnogi ac yn sicrhau ansawdd gwaith y Grŵp Llywio a bydd Ymgynghorwyr Gwella Cefnogol hefyd yn gweithio mewn dalgylchoedd i adnabod anghenion pob ysgol. Mae'r cynllun gweithredu hwn mewn ymateb penodol i Gymraeg, Asesiad Gwaelodlin, y Blynyddoedd Cynnar a gwella systemau tracio a thargedu;
- Mae'r canlyniadau ar gyfer Deilliannau uwch 6+ yn ysgolion Môn yn dal i fod yn gymharol dda. Er bod disgwyliadau uwch eleni i gyflawni'r Deilliant hwn, mae ysgolion wedi codi lefel yr her er mwyn cwrdd â'r gofynion newydd.

**Cyfnod Allweddol 2**

- Mae perfformiad ysgolion ar Ynys Môn yn dal yn gryf ar y cyfan. Mae'r perfformiad yn mhob pwnc ar y Lefel 4 disgwyliedig yn debyg i'r canlyniadau cenedlaethol, ac eithrio Cymraeg sy'n is. Mae perfformiad ar y lefelau 5+ uwch eto'n gryf ar y cyfan;
- Y meysydd i'w gwella yw gweithredu argymhellion perthnasol yn y cynllun gweithredu cytunedig fel yn y Cyfnod Sylfaen.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y pwyntiau a ganlyn:-

- Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â'r gwaith y mae'r Grŵp Llywio a sefydlwyd wedi'i wneud ym mhob dalgylch mewn ymateb i anghenion Cyfnod Sylfaen. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu fod angen cyfoethogi'r data a gasglwyd yn flaenorol o fewn y Cyfnod Sylfaen. Dywedodd fod Grŵp Llywio gyda chynrychiolaeth o Brifathrawon wedi cael ei sefydlu a bod cynrychiolydd o bob dalgylch wedi'i adnabod i hyrwyddo arfer dda o fewn eu dalgylch penodol nhw. Mae bas data nawr ar gael i adnabod cryfderau a gwendidau o fewn y Cyfnod Sylfaen ac mae cyfleuster i alluogi Prifathrawon i rannu arfer dda a chydweithio o fewn y sector;
- Cwestiynodd yr Is-gadeirydd a yw GwE yn cynnig gwerth am arian yn ei rôl o gefnogi ysgolion ac a oes mesurau mewn lle fesur rôl GwE. Dywedodd yr Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE ei fod yn fater o beth mae Prifathrawon, Athrawon a Swyddogion Addysg yr Awdurdod yn ei ystyried yw mantais GwE o fewn ysgolion yr ynys. Nododd fod Swyddog GwE yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Addysg mewn perthynas â safonau yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Gellir hefyd mesur y fantais o'r Awdurdod yn gweithio gyda GwE yng nghyd-destun y proffil categoreiddio h.y. ysgolion sydd wedi derbyn y categori gwyrdd yng nghyswllt Arweinyddiaeth a Dysgu yn yr ysgolion. Dywedodd

ymhellach fod GwE yn darparu monitro statudol ar yr ysgolion i'r Awdurdod a bod pethau wedi symud ymlaen yn ddiweddar gyda GwE yn darparu cefnogaeth broffesiynol yn yr ysgolion er mwyn codi'r safonau angenrheidiol. Mae GwE hefyd wedi darparu rhaglen i ddenu Prifathrawon posib yn yr ysgolion o blith athrawon cymwys.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Uwchradd) ddadansoddiad manwl o'r data perfformiad:-

**Cyfnod Allweddol 3**

- Mae perfformiad y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) ar Ynys Môn wedi codi ac mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwelwyd cynnydd yn y ganran o ddysgwyr prydau ysgol am ddim a gyflawnodd y dangosydd DPC.
- *Cymraeg* – mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig wedi codi mymryn eto eleni, ac mae wedi codi dros gyfnod o 3 blynedd dreigl. Mae perfformiad yn Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol eleni.
  *Saesneg* – mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg wedi aros yn gyson eleni ac mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
  *Mathemateg* – mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg wedi codi eto eleni ac mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o fewn y cyfnod treigl 3 blynedd. Gwelwyd gostyngiad bach yn y perfformiad ar un lefel uwchlaw y lefel ddisgwyliedig ac mae'r perfformiad fymryn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol .
  *Gwyddoniaeth* – gostyngiad bach yn y perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig, ond mae dal yn uchel ac mae'n uwch na'r canran cenedlaethol. Mae'r perfformiad ar un lefel uwchlaw y lefel ddisgwyliedig wedi gostwng mymryn eleni ac mae fymryn yn is na'r canran cenedlaethol.
- Mae perfformiad Ynys Môn yng nghyfnod allweddol 3 yn dal yn uchel ac mae'n uwch yn bron i bob un o'r dangosyddion o'u cymharu â'r perfformiad cenedlaethol;
- Mae angen perfformiad uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar un lefel uwchlaw y lefel ddisgwyliedig.

**Cyfnod Allweddol 4**

- Yn dilyn y newidiadau i arholiadau yn 2016-2017, mae deilliannau TGAU yn dal i fod yn anwadal iawn. Mae newidiadau sylweddol i batrwm a nifer y disgyblion a oedd yn sefyll arholiadau yn haf 2018 wedi cael effaith ar ganlyniadau fel y gwelir yn y gyfran o raddau ar draws yr holl bynciau yn yr ystod A* i C yng Nghymru yn disgyn 1.2pp i 61.6%;
- Mae TGAU yn cael eu diwygio a chafwyd arholiadau mewn 15 o bynciau diweddaredig yr haf hwn am y tro cyntaf. Cafodd y TGAU newydd o gymwysterau mewn Gwyddoniaeth ei arholi am y tro cyntaf yn 2018 ac mae'n cyd-ddigwydd â'r newidiadau i'r dangosyddion perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4;
- Mae newidiadau sylweddol i drothwyon graddau wedi digwydd ers haf 2017 a Tachwedd 2017 o gymharu â Haf 2018, yn arbennig ar gyfer gradd C mewn Saesneg a Mathemateg. Mae hyn wedi'i gwneud yn anodd i ysgolion i sicrhau rhagamcanion a gosod targedau manwl-gywir;
- Bu cynnydd ym mherfformiad tair o'r pum ysgol uwchradd ar yr ynys;

- Mae ffigurau cychwynnol yn dangos bod disgyblion prydau ysgol am ddim wedi perfformio'n well;
- Mae GwE yn cynnig rhaglen hyfforddiant mewn perthynas â rhaglenni addysgol penodol ac mae pob un o'r pum Ysgol Uwchradd yn cymryd mantais o'r cynllun hyfforddiant;
- Mae Grŵp 'Camu' wedi'i sefydlu ar Ynys Môn gyda chynrychiolaeth o'r pum ysgol uwchradd a GwE. Caiff cynlluniau datblygu ac anghenion unigol pob ysgol eu trafod. Mae Is-grwpiau wedi eu sefydlu hefyd i roi sylw penodol i wella perfformiad ysgolion h.y. gwella perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, addysgu a dysgu, gwelliannau arweinyddiaeth a rhannu arfer dda. Nododd fod un ysgol uwchradd ar Ynys Môn wedi derbyn arolwg Estyn yn ddiweddar ac roedd yr Arolygiaeth wedi canmol blaengaredd yr Awdurdod a GwE wrth sefydlu fframwaith o'r fath;
- O fewn Cyfnod Allweddol 4 mae wedi dod i'r amlwg bod bechgyn yn Ysgolion Môn yn wannach yn y pynciau iaith Cymraeg a Saesneg (mae GwE wedi cymharu data ar berfformiad bechgyn mewn ieithoedd gydag ystadegau cenedlaethol ar gyfer bechgyn yng Nghymru). Bydd GwE a'r pum ysgol uwchradd ar Ynys Môn nawr yn canolbwyntio ar wella perfformiad bechgyn yn y pynciau ieithoedd yn yr ysgolion.

Roedd yr Ymgynghorydd Her Ysgolion (Uwchradd) yn dymuno nodi ei gwerthfawrogiad i'r berthynas weithio lwyddiannus a'r cydweithio rhwng GwE ac ysgolion Ynys Môn.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at drothwy gradd C yr arholiad TGAU Iaith Saesneg eleni. Ymatebodd yr Aelod Portffolio – Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant fod y trothwy ar gyfer ennill Gradd C mewn TGAU Iaith Saesneg wedi bod yn uwch i ddisgyblion yn 2018 nac yn 2017. I ennill Gradd C yn 2017, roedd rhaid cael marc o 200 ond yn 2018 roedd rhaid cael marc o 220. Nododd fod y chwe Aelod Portffolio yng ngogledd Cymru sydd â chyfrifoldeb am Addysg wedi cwyno wrth Lywodraeth Cymru am yr annhegwch i ddisgyblion yng nghyswllt y mater hwn;
- Mynegwyd pryderon fod newidiadau anferth yn digwydd yn y system addysg a bod hyn yn cael effaith ar athrawon a disgyblion. Dywedodd yr Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE y bydd y system addysg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Addysg ac ysgolion lunio ei gwricwlwm ei hun. Mynegodd y bydd hyn yn gyfle i Ynys Môn allu llunio ei gwricwlwm lleol ei hun a fydd yn gallu tynnu ar brofiadau gwahanol fusnesau a chymunedau;
- Holwyd cwestiynau ynglŷn â'r problemau gyda denu athrawon Gwyddoniaeth mewn ysgolion uwchradd. Dywedodd yr Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE fod GwE mewn trafodaethau gyda Phrifysgolion i hyrwyddo'r proffesiwn dysgu; mae denu athrawon pynciau STEM yn mynd yn bryder. Mynegodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad ei bod yn hollbwysig bod y proffesiwn addysg yn cael ei hyrwyddo mewn ysgolion fel y gellir denu pobl ifanc i fod yn Athrawon yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 5 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2017/18

Cyflwynwyd – adroddiad gan yr Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE.

Roedd yr adroddiad yn amlygu perfformiad GwE ar gyfer 2017/18 ac yn nodi bod GwE yn darparu her gefnogol gyda ffocws pendant er mwyn datblygu system sy'n gwella ei hun ac sy'n ymddiried mewn ysgolion a'u harweinwyr ar bob lefel. Roedd yr adroddiad yn darparu Blaenoriaethau Cynllun Busnes GwE ar gyfer 2018/19, ynghyd â throsolwg o safonau addysgol ar draws Gogledd Cymru yn 2017/18.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y pwyntiau canlynol:-

- Tra'n derbyn bod gwelliant parhaus o ran rhannu arfer dda rhwng ysgolion mynegodd Aelod fod angen adnabod dyddiau targed penodol. Ymatebodd yr Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE fod GwE yn ystyried mai'r prif ffocws yn y blynyddoedd i ddod fydd cael gwell gwydnwch. Roedd yn ystyried bod yr arfer dda o fewn yr ysgolion a gan y byddant yn wynebu newidiadau helaeth i'r cwricwlwm addysgol, bydd GwE yn cefnogi rhaglen dreigl mewn ysgolion. Nododd y bydd Llywodraeth Cymru ac Estyn yn cyhoeddi disgwyliadau i ysgolion fod yn herio ac yn cefnogi ei gilydd yn y dyfodol agos;
- Mynegodd Aelod ei farn y dylai Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE fod wedi eu lleoli yn yr ysgolion. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith fod cefnogaeth GwE yn gostus. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu drwy ddeud nad oedd o'r farn y byddai model cyffelyb i'r un a ddarperir gan GwE yn cyflawni'r gwelliannau a'r gefnogaeth a roddwyd i ysgolion ar Ynys Môn yn enwedig o gofio'r newidiadau helaeth y bydd y system addysg yn eu wynebu dros y blynyddoedd nesaf. Mynegodd yr Aelod Portffolio – Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant fod y gefnogaeth y mae GwE wedi'i rhoi i wella a chyfoethogi ysgolion Môn wedi bod yn hanfodol i lwyddiant yr ysgolion. Nododd hefyd fod GwE wedi cefnogi a rhoi arweiniad i waith y Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion wrth herio ysgolion sydd wedi ymddangos ger bron y Panel. Fel rhan o gefnogi datblygiad y Panel, rhoddodd yr Uwch Arweinydd Uwchradd – GwE wahoddiad i Aelodau'r Panel gysgodi gwaith GwE mewn ysgolion yn ystod ymweliadau penodol. Roedd y Pwyllgor yn croesawu hyn fel rhan o gefnogi rôl sgriwtini yr Aelodau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Trefnu i Aelodau gysgodi gwaith GwE unwaith mae'r trefniadau angenrheidiol wedi cael eu gwneud gan GwE mewn ymgynghoriad â'r Adran Ddysgu.**

## 6 PANEL SGRIWTINI – ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan gadeirydd y Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion a'r Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad fod y Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion, ers adrodd i'r Pwyllgor hwn, wedi cyfarfod ar bump

achlysur ac wedi derbyn adroddiadau ac wedi cyfarfod gyda Phenaethiaid a Llywodraethwyr fel a ganlyn:-

Ysgol Gynradd Bodedern
Adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Dysgu
Y Cyfnod Sylfaen
Ysgol y Ffridd ac Ysgol y Graig, Llangefni
Ysgol Corn Hir, Llangefni ac Ysgol Henblas

Mae'r Panel yn derbyn gwybodaeth gan GwE ac mae Swyddog ar gael yn y cyfarfodydd i drafod unrhyw gefnogaeth sy'n cael ei derbyn gan ysgol. Mae'r Panel hefyd yn derbyn diweddariadau gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â gweithredu Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Dysgu. Mae gwella perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen yn uchel ar agenda yr Adran Ddysgu ac er y cafwyd deilliannau da o ran sicrhau bod ysgolion bellach yn asesu disgyblion mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae sicrhau cysondeb mewn safonau uchel trwy'r holl bynciau yn dal yn flaenoriaeth. Dywedodd y Swyddogion ymhellach, yn dilyn sesiwn briffio a roddwyd gan Grŵp Arweinyddiaeth Clwstwr y Cyfnod Sylfaen, fod y Panel wedi cael sicrwydd bod cynllun gweithredu cadarn yn cael ei gynnal i gryfhau'r maes hwn. Nodwyd fod y Panel yn bryderus bod nifer y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim yn lleihau er nad yw economi'r Ynys ar y cyfan yn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau teuluoedd.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a chododd y materion canlynol:-

- Ceisiwyd eglurhad ynglŷn â'r sefyllfa bresennol gyda recriwtio Prifathrawon yn y Sector Cynradd. Ymatebodd yr Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad fod nifer o Brifathrawon newydd wedi bod mewn lle ers y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd ymhellach fod nifer o athrawon yn y sector cynradd wedi gwneud cais am hyfforddiant CPCP i ddod yn Brifathrawon;
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod Aelodau Etholedig wedi ymweld ag ysgolion yn flaenorol i weld gweithgareddau a pherfformiad ysgolion. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod o'r farn y byddai'n fanteisiol i'r Aelodau Etholedig ymweld ag ysgolion oherwydd gallai gyfrannu at eu rôl fel Llywodraethwyr a byddai'n addysgiadol iddynt o ran tystiolaethu'r gwerth am arian mewn perthynas â rôl GwE yn Ysgolion yr Ynys.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno bod y Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion yn darparu her gadarn ar berfformiad ysgolion unigol;**
- **Cytuno bod y Panel Sgriwtini – Adolygu Cynnydd Ysgolion yn monitro gweithrediad y Cynllun Gwella gan y Gwasanaeth Dysgu a bod y cynllun ar darged hyd yma;**
- **Cytuno bod y Panel yn gwneud cynnydd wrth fonitro'r gwaith a wneir gan Grŵp Arweinyddiaeth Clwstwr y Cyfnod Sylfaen sy'n arwain ar wella perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ar draws yr Ynys;**
- **Nad oes unrhyw faterion ar hyn o bryd sydd angen eu huwch-gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Gwaith o waith parhaus y Panel.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## 7 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Gorffennaf 2019.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith hyd at fis Gorffennaf 2019.**

**GWEITHREDU : Fel yr uchod.**

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 5 Chwefror 2019 |
| **Pwnc:** | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Disgrifio swyddogaeth a phwrpas y Bwrdd a'i waith |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym O. Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Rhys Jones |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Alwyn Rhys Jones<br>01248752707<br>Alwynjones3@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Derbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ynglŷn â swyddogaeth a phwrpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a derbyn diweddariad ynglŷn â'i waith hyd yma. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu canllawiau strategol i'r holl bartneriaid sydd yn cefnogi unigolion i gynnal eu hiechyd a'u llesiant o fewn cymunedau. Mae'r nod hwn yn gwbl gyson â nod y Cyngor i gefnogi oedolion bregus a'u teuluoedd er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac yn annibynnol. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| • Fel aelod Sgriwtini, ydw i'n deall swyddogaeth a phwrpas y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br>• Fel aelod Sgriwtini, ydw i'n ymwybodol o brosiectau lleol sy'n cael eu noddi gan y Bwrdd Partneriaeth Lleol. |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**Cefndir Statudol**

Mae Canllawiau Statudol ynghylch gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn "ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad gyda'u partneriaid perthnasol ac eraill mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant.... Mae Rhan 9 y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau. Yn ogystal mae'n rhoi pwerau creu rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol....a byrddau partneriaeth".

O dan y Ddeddf, "Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli a datblygu gwasanaethau i sicrhau cynllunio strategol a gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ac i sicrhau fod gwasanaethau, gofal a chymorth effeithiol mewn lle i ddiwallu anghenion eu poblogaeth yn y ffordd orau"

Yng Ngogledd Cymru roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer yr ardal sy'n cyd-fynd ag ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cynnwys Cyngor Sir Y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae rhai o swyddogaethau'r bwrdd yn cynnwys:-

- Sicrhau Ymateb Rhanbarthol i'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth
- Hyrwyddo Cronfeydd Cyfun lle bo hynny'n briodol a lle bod awdurdod i wneud hynny
- Blaenoriaethu integreiddio mewn gwasanaethau penodol, sef: Gwasanaethau Pobl Hŷn, Gwasanaethau Anableddau Dysgu, Gofalwyr, Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Phlant ag Anghenion Cymhleth.
- Sicrhau fod gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol ar gael i'r boblogaeth leol.

Mae aelodaeth y bwrdd hefyd wedi'i phennu gan ddeddfwriaeth ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol yn ogystal â chynrychiolwyr y trydydd sector a'r sector annibynnol. Yng Ngogledd Cymru mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyfethol aelodau o Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, y

Gwasanaeth Tân, yr Heddlu a Thai ar y Bwrdd hefyd. Yn ogystal, rhaid i'r Byrddau gael aelodau yn cynrychioli gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau mae'n ofynnol i'r bwrdd gynhyrchu adroddiad blynyddol yn disgrifio cyflawniadau'r bwrdd er sylw'r Gweinidog cyfrifol yn Llywodraeth Cymru.

I grynhoi, mae strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei bennu drwy ddeddfwriaeth. Mae iddo swyddogaeth strategol statudol i oruchwylio nifer o feysydd. Er nad oes modd iddo fod yn atebol am unrhyw un o'r meysydd hynny, disgwylir i'r bwrdd gynorthwyo i gyflawni'r meysydd hynny yn rhanbarthol.

**Cyflawniadau hyd yma**

Ers ei ffurfio ym mis Ebrill 2016, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi derbyn cefnogaeth gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol a'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol sy'n cael ei letya gan Gyngor Sir Ddinbych.

Rhai o'r darnau o waith o bwys y mae'r bwrdd wedi eu goruchwylio, wedi rhoi cyngor ac arweiniad strategol iddynt a'u cymeradwyo yn ystod y cyfnod yw:-

1. **Cwblhau Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a Chynllun Rhanbarthol**

O ganlyniad i fodolaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, mae gofyn i Ogledd Cymru, fel ardal, gynhyrchu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth bob 5 mlynedd. Yn 2017, cafodd y ddogfen gyntaf hon ei chwblhau gan y Tîm Rhanbarthol, a'i chymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth. Cymeradwyodd pob sefydliad unigol yr adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Mae'r adroddiad yn caniatáu i ni ddeall anghenion ein poblogaeth yn well a sut y gallent newid yn y dyfodol.

Defnyddiwyd yr adroddiad fel sail i'r Cynllun Ardal Rhanbarthol sydd yn cynnwys y gwasanaethau penodol a gynlluniwyd mewn ymateb i bob thema graidd a nodwyd yn yr asesiad o'r boblogaeth. Cyhoeddwyd cynllun ardal cyntaf Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2018.

Bydd y bwrdd yn parhau i gynnal trosolwg o weithrediad y Cynllun a bydd yn ceisio dylanwadu ar unrhyw feysydd nad ydynt yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni arfaethedig.

2. **Strategaeth Anabledd Dysgu**

Yn ddiweddar, cymeradwyodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Strategaeth Anableddau Dysgu Rhanbarthol yn dilyn ymgynghori helaeth. Ar hyn o bryd, mae pob Awdurdod Lleol yn mynd â'r Strategaeth drwy eu prosesau llywodraethu lleol er mwyn ei chymeradwyo'n llawn. Mae'r Strategaeth Anableddau Dysgu yn darparu eglurder ynghylch datblygu cymorth i unigolion yn y dyfodol ac yn rhoi pwyslais clir ar gydweithio er mwyn cefnogi unigolion i fyw bywyd llawn ac annibynnol.

O ganlyniad i'r eglurder cyfeiriad a ddarperir gan y Strategaeth Anableddau Dysgu Rhanbarthol, yn ddiweddar llwyddodd y Bwrdd Partneriaeth i sicrhau £1.7 miliwn o gronfeydd yr Adolygiad Seneddol a ddarparwyd er mwyn cynorthwyo i foderneiddio gwasanaethau a gynhigir yn ystod y 18 mis nesaf.

### 3. Strategaeth Gofalwyr

Yn 2018, comisiynodd y bartneriaeth waith i ddatblygu strategaeth sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oed drwy gydol eu cyswllt gyda gwasanaethau ac mae'n seiliedig ar arfer orau yn genedlaethol. Nod y gwaith hwn oedd edrych ar y sefyllfa trwy lygaid y gofalwyr er mwyn deall beth sy'n bwysig iddynt a beth fydd yn cyfrannu at eu llesiant ac yn gwella eu hamgylchiadau. Drwy wrando ar ofalwyr roedd modd i'r bwrdd greu gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau gofalwyr yng Ngogledd Cymru, sef:

• Meddwl am ofalwyr • Cynnwys gofalwyr o bob grŵp a chymuned mewn penderfyniadau a gwaith cynllunio • Gweithio mewn partneriaeth i ddylunio a chyd-gynhyrchu gwasanaethau o gwmpas y gofalwr

Yn ei dro arweiniodd hyn at gynnig clir i ofalwyr sydd yn nodi fod:

• Safbwyntiau a gwybodaeth gofalwyr yn cael eu ceisio, eu rhannu, eu defnyddio a'u ddiweddaru'n rheolaidd wrth gyd-gynhyrchu cynlluniau gofal a strategaethau cyffredinol • Mae staff angen gwybodaeth, hyfforddiant a chefnogaeth i fod yn ymwybodol o ofalwyr • Mae Gofalwyr yn cael eu nodi yn ystod y cyswllt cyntaf • Mae protocolau polisi ac ymarfer mewn lle • Mae swyddi diffiniedig sy'n gyfrifol am ofalwyr mewn lle • Mae ystod o wasanaethau cefnogi gofalwyr ar gael.

### 4. Gwaith Integreiddio

Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi goruchwylio Dull Rhanbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â chronfeydd a gynlluniwyd i gefnogi integreiddio ar lefel ranbarthol. Dau faes allweddol y mae'r bwrdd wedi eu goruchwylio yw:-

- Sefydlu Cyllidebau Cyfun
- Cytuno ar brosiectau i'w hariannu o'r Gronfa Gofal Integredig

**Gwaith ar Gyllidebau Cyfun** – Roedd y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu cronfeydd cyfun mewn perthynas â rhai meysydd penodol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi goruchwylio a brocera'r trefniadau hyn sydd wedi arwain at gymeradwyo ac ymrwymo i Gytundeb Integreiddio Rhanbarthol gan yr holl bartneriaid. Bydd hyn yn gosod sail i unrhyw drefniadau cyllideb gyfun a ddatblygir yng Ngogledd Cymru. Datblygwyd trefniadau Cyllideb Cyfun ar gyfer y meysydd canlynol

- Cyllid grant gofalwyr, yn cynnwys gofalwyr ifanc.

- Gwasanaethau Integredig Cefnogi Teuluoedd (trefniadau cyllideb cyfun isranbarthol)
- Cronfa Gofal Integredig
- Rhith-Gyllidebau a Reolir ar gyfer Darpariaeth Nyrsio a Gofal Preswyl

**Gwaith Cronfa Gofal Integredig (CGI)** – Y Bwrdd Partneriaeth yw'r corff rhanbarthol awdurdodedig ar gyfer cymeradwyo bidiau i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ar draws Gogledd Cymru. Disgwylir i bob bid gyflawni yn erbyn Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru ac i gydymffurfio â chanllawiau LlC ar gyfer defnyddio cyllid y Gronfa Ofal Integredig. Yn ystod y 3 blynedd diwethaf mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo bidiau ar gyfer nifer o brosiectau yn ymwneud â meysydd thema'r CGI yn cynnwys Pobl Hŷn, Anableddau Dysgu, Dementia a Phlant.

## 5. Byrddau sy'n Atebol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'u Cyflawniadau hyd yma

Yn ychwanegol i rôl uniongyrchol y bwrdd wrth gymeradwyo ac ardystio'r prosiectau a nodwyd uchod mae hefyd yn gweithredu fel bwrdd llywodraethu ar gyfer gwaith penodol arall yn cynnwys gwaith Bwrdd Comisiynu Gogledd Cymru a Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae'r grwpiau hyn, yn y drefn honno, wedi cynorthwyo i ddatblygu Datganiad Sefyllfa'r Farchnad ar gyfer Cartrefi Gofal Pobl Hŷn a Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru.

Mae'r Datganiad Sefyllfa'r Farchnad yn rhoi gwybodaeth i ddarparwyr ynglŷn ag anghenion partneriaid yn ystod y 5 mlynedd nesaf ac yn rhoi cymorth iddynt ystyried sut i ddatblygu eu busnes wrth symud ymlaen.

Mae'r Strategaeth Gweithlu yn nodi ymrwymiad strategol fel Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru ar gyfer y sector gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol, yn cadarnhau blaenoriaethau yn ystod y 3 blynedd nesaf, hyd at 2021. Dengys y Strategaeth ymrwymiad i agwedd gydgysylltiedig mewn perthynas â heriau a chyfleoedd yn gysylltiedig â'r gweithlu ar draws y sector.

## 6. Ymateb Gogledd Cymru i "Cymru Iachach"

Ar ddechrau 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun tymor hir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, *Cymru Iachach*. Mae'r ddogfen yn darparu gweledigaeth strategol ar gyfer datblygu gwasanaethau a'r angen i drawsnewid y modd yr ydym yn gweithio i gefnogi unigolion o fewn eu cymunedau. Dywedodd y Gweinidog, Vaughan Gething: "Mae ein cynllun tymor hir ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn nodi sut y byddwn yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gofal er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn y dyfodol".

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu ymateb Gogledd Cymru i'r cyhoeddiad hwn, a sut y byddwn yng Ngogledd Cymru yn integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn well er mwyn lleihau dibyniaeth ar ysbytai a darparu gofal yn agosach adref.

Yn ei dro, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo 4 bid a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ystyried eu hariannu o'u Cronfa Drawsnewid. Hyd yma, mae bidiau Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Plant wedi bod yn llwyddiannus ac mae bidiau'n ymwneud â'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Cymunedol Pobl Hŷn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

**7. Dylanwad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn Lleol**

Pan drafodwyd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ddiweddar gofynnodd yr Aelodau pa werth sydd i swyddogaeth y bwrdd i Gyngor Sir Ynys Môn a'n preswylwyr. Fel y disgrifiwyd yn barod, yn ei hanfod mae'r Bwrdd yn fwrdd partneriaeth strategol integredig sydd yn darparu fforwm i ardystio cynlluniau rhanbarthol, gyda'r disgwyliad y bydd partneriaid isranbarthol a lleol yn gweithredu'r cynlluniau hynny (darpariaeth leol).

Yr enghraifft fwyaf uniongyrchol o hyn yw'r gymeradwyaeth a roddwyd gan y bwrdd i gynlluniau'r Gronfa Gofal Integredig fesul ardal. Mae enghreifftiau o gynlluniau a gymeradwywyd gan y bwrdd yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf ac a ddarparwyd / fydd yn cael eu darparu yn Ynys Môn yn cynnwys:-

- Nightowls
- Capasiti Camu Ymlaen / Camu i Lawr mewn Cartrefi Gofal a Gofal Ychwanegol
- Parafeddyg yn cefnogi Gofal Uwch Môn
- Datblygu 4 o fflatiau yn Llawr y Dref i gefnogi cleientiaid ag anableddau
- Gwelyau Hosbis wedi eu Cynllunio yn Ysbyty Penrhos Stanley
- Rheolwr Prosiect ar gyfer Ymarfer Tendro Gofal Cartref
- Buddsoddiad yn y Prosiect Tai Grŵp Bach ar gyfer y Gwasanaethau Plant

Cymeradwywyd yr enghreifftiau hyn gan yr ystyrir eu bod yn cyd-fynd â Chynllun Ardal Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r meysydd penodol iawn hyn, bydd y cyfeiriad strategol a nodir yn y dogfennau a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn dylanwadu ar ddatblygiad ein gweithlu, y gwasanaethau a gynhigir i'r cyhoedd a sut y byddwn yn cydweithio fel partneriaid.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| --- |
| Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gael ar gais ac mae'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
| --- |
| Yn 18/19 cyfrannodd Ynys Môn £63,000 tuag at waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a £10,119 ychwanegol tuag at y cytundeb partneriaeth comisiynu. |

| |
|---|
| £63,000 yw ein cyfraniad yn 2019/20, yn cynnwys cyfraniad i'r cytundeb partneriaeth comisiynu. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Dim |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Gellir gweld gwybodaeth ynglŷn â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r ffrydiau gwaith rhanbarthol ar:<br><br>www.northwalescollaborative.wales<br><br>Mae hon yn wefan gyhoeddus. |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

**PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 →2018/2019**

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Mawrth, 2019** | | | |
| **12 Mawrth 2019** Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh | Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar gamau nesaf ('w gadarnhau) | Monitro perfformiad | | √ (Holl Rhanddeiliaid) | √ | |
| | Bwrdd Gwasdanaethau Cyhoeddus- craffu cynnydd ar gweithredu'r Cynllun Llesiant | Monitro perfformiad | | | √ | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |
| | | | **Ebrill, 2019** | | | |
| **9 Ebrill 2019** Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Craffu cyn Penderfyniadf | | √ (Holl Rhanddeiliaid | √ | |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad | | | √ | |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad | √ | | | |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu | | √ (Aelodau) | | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Mewnbwn Panel Sgriwtini | Ymgysylltu | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Pwyllfgor Gwaith/ Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | | | | | | |
| **18 Mehefin 2019** | Adroddiad ar y Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth Fewnol | | | | | |
| **Mehefin/ Gorffennaf, 2019** | Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Gyntaf) | | | | | |
| **i'w gadarnhau** | Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden Anstatudol (cyfnod 3 blynedd) (Craffu cyn penderfyniad – monitro perfformiad) | | | | | |
| **i'w gadarnhau** | Materion cysylltiedig â Gwastraff | | | | | |
| **i'w gadarnhau** | Fargen Twf Gogledd Cymru | | | | | |
| **i'w gadarnhau** | Heddlu Gogledd Cymru-Ardal Ynys Môn | | | | | |
| **i'w gadarnhau** | Gwahoddiad i Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | | | | | |
| i'w gadarnhau | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini o cynnydd ar weithredu y Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) | | | | | |
| **i'w gadarnhau** | Medrwn Môn | | | | | |

This page is intentionally left blank